CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

# Rheoliadau Medalau a Gwobrau'r Gymdeithas

Pwrpas Medalau a Gwobrau'r Gymdeithas yw dathlu ymchwilwyr ac ymarferwyr, yn unigol ac fel timau, sy'n gweithio yn ymchwil neu arloesi ar draws amrywiaeth eang o sefydliadau, gan gynnwys y byd academaidd, diwydiant, y sector elusennol, a'r celfyddydau lle mae eu gwaith yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad gwybodaeth ac/neu rym ymchwil ac arloesi.

Manylir ar ddiffiniadau o bwy sy'n gymwys, sut y gellir eu henwebu, a'n proses ddyfarnu yn y ddogfen hon.

## 1. Trosolwg o'r enwebiadau

a) Gall unrhyw unigolyn (yr enwebydd) sydd dros 18 oed gyflwyno enwebiad.

b) NID oes angen i enwebwyr fod yn Gymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

c) Ni cheir ond enwebu pob ymgeisydd neu dîm am un fedal neu wobr bob blwyddyn.

ch) Caiff enwebydd enwebu mwy nag un tîm/unigolyn yn unrhyw flwyddyn.

d) Rhaid i enwebwyr sicrhau eu bod yn cael caniatâd yr ymgeisydd neu arweinydd y tîm cyn cyflwyno'r enwebiad.

dd) Mae holl fedalau a gwobrau'r Gymdeithas wedi'u rhestru ar y wefan, a dyfernir pob medal a gwobr am yn ail flwyddyn. Bydd y medalau a'r gwobrau sydd ar gael yn y flwyddyn gyfredol wedi'u nodi'n glir ar y wefan.

e) Dyfernir medalau a gwobrau yn ôl y graddau y mae'r ymgeisydd neu dîm yn bodloni'r meini prawf a'r manylion cymhwystra fel y'u rhestrir. Ni ddefnyddir unrhyw ddulliau dethol eraill.

f) Bydd ffurflenni enwebu ar gael o wefan y Gymdeithas.

ff) Rhaid cadw'r enwebiad yn gyfrinachol rhwng yr Ymgeisydd, yr enwebydd a'r Gymdeithas nes y rhoddir gwybod fel arall.

g) Ni chaiff enwebiadau ond eu hystyried ar gyfer un cylch o fedalau a gwobrau, ac ni chaiff enwebiadau aflwyddiannus eu trosglwyddo i'r cylch nesaf.

ng) Rhai sydd wedi'u heithrio o enwebiadau:

Mae'r canlynol wedi'u heithrio rhag **gwneud enwebiadau:**

- Aelodau Pwyllgor Craffu Medalau a Gwobrau'r Gymdeithas
- Staff y Gymdeithas

Mae'r canlynol wedi'u heithrio **rhag cael eu henwebu**:

- Aelodau Cyngor y Gymdeithas
- Aelodau Pwyllgor Craffu Medalau a Gwobrau'r Gymdeithas
- Staff y Gymdeithas

## 2. Cymhwystra a'r Meini Prawf ar gyfer dyfarnu medalau a gwobrau

Bydd y meini prawf a'r trosolwg cymhwystra canlynol yn sail i drafodaethau Pwyllgor Craffu Medalau a Gwobrau'r Gymdeithas ac i benderfynu ynghylch canlyniad y broses. Bernir pob enwebiad yn erbyn yr wybodaeth a ddarparwyd ar y ffurflen enwebu.

**Cymhwystra ar gyfer pob un o'r medalau/gwobrau:**

a) Dylai'r ymgeisydd neu'r tîm breswylio yng Nghymru, fod enedigol o Gymru neu ddangos cysylltiad arall arbennig â Chymru
b) Bydd yr ymgeisydd neu'r tîm yn ymchwilwyr neu'n ymarferwyr y mae eu gwaith yn effeithio ar ddatblygiad gwybodaeth ac/neu rym ymchwil ac arloesi.

**Ar gyfer pob Gwobr Effaith:**

Gall enillwyr fod o unrhyw ddisgyblaeth neu broffesiwn.

**Ar gyfer pob Medal Gyrfa Sefydledig:**

Bydd yr enillwyr yn unigolion yng sydd ar ganol, neu mewn cyfnod hwyrach yn eu gyrfa – a ddiffinnir fel rhywun, ar adeg yr enwebiad, a chanddo fwy na deng mlynedd o brofiad mewn ymchwil neu waith proffesiynol perthnasol (10 mlynedd neu 10 mlynedd cyfwerth ag amser llawn)

**Ar gyfer pob Medal Gyrfa Gynnar:**

Rydym yn cydnabod y gall Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar fod ar gyfnodau gwahanol iawn yn eu gyrfa. Byddwn yn ystyried enwebiadau gan ystod eang o bobl - ein diffiniad eang o Ymchwilydd Gyrfa Gynnar yw rhywun sydd fel arfer, ar ddyddiad cau'r enwebiadau, â llai na deng mlynedd o brofiad mewn ymchwil neu waith proffesiynol perthnasol. Rhoddir ystyriaeth hefyd i enwebiadau ar gyfer unigolion y tu allan i'r ffrâm amser hon ond sydd wedi cael seibiant gyrfa neu seibiant o waith ymchwil, *beth bynnag fo'r rheswm.*

**Yn ogystal â hyn, mae gan bob medal a gwobr ei meini prawf penodol ei hun - gweler y tabl isod:**

| Medal/Gwobr | Meini prawf a chymhwystra ar gyfer Medal / Gwobr benodol |
|---|---|
| | **Gwobrau Effaith** |
| **Gwobr yr Arglwyddes Rhondda am Gyflawniad Rhagorol** | Mae'r wobr hon yn cydnabod cyflawniadau rhagorol unigolyn sy'n gweithio mewn unrhyw faes ymchwil neu arloesi.<br><br>*Bydd enillwyr y wobr hon yn arddangos cyfraniadau sylweddol mewn un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:*<br><br>• Cyfraniad nodedig ac eithriadol at ymchwil ac/neu ddatblygu gwybodaeth yng Nghymru/ar gyfer Cymru.<br>• Enw rhagorol yng Nghymru a thu hwnt.<br>• Cyrhaeddiad ac effaith ar gymdeithas ehangach |

| | |
|---|---|
| | • Cynnyrch nodedig o'u gwaith<br>• Unrhyw gyflawniadau nodedig eraill e.e./ arloesi, prosiectau mawr, trosglwyddo gwybodaeth, lledaenu eu gwaith ac ati.<br><br>Ar agor i unigolion yn unig. |
| **Gwobr Frances Batty Shand am Effaith Ymchwil neu Ymarfer Proffesiynol** | Mae'r wobr hon yn cydnabod tîm neu unigolyn y mae eu hymchwil neu eu hymarfer proffesiynol wedi cael effaith sylweddol ac amlwg y tu hwnt i gwmpas eu gwaith neu eu disgyblaeth.<br><br>*Bydd enillwyr y wobr hon yn arddangos cyfraniadau sylweddol mewn un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:*<br><br>• Ymchwil neu ymarfer proffesiynol sydd wedi cael effaith sylweddol ac amlwg.<br>• Newidiadau cadarnhaol sylweddol a dylanwadol y tu hwnt i gwmpas eu maes gwaith neu ddisgyblaeth (deallusol, cymdeithasol, economaidd ac/neu ddiwylliannol) sy'n deillio o'u hymchwil neu ymarfer proffesiynol.<br>• Cynnyrch nodedig o'u gwaith<br>• Unrhyw gyflawniadau nodedig eraill e.e./ arloesi, prosiectau mawr, trosglwyddo gwybodaeth, lledaenu eu gwaith ac ati.<br><br>Ar agor i unigolion neu dimau. |
| **Gwobr yr Athro Millicent Mackenzie am Hyrwyddo Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn Bywyd Academaidd neu Broffesiynol** | Mae'r wobr hon yn cydnabod tîm neu unigolyn sydd wedi mynd gam ymhellach wrth hyrwyddo neu ymwreiddio Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant o fewn eu gwaith ymchwil neu arloesi - gan arddangos ymrwymiad parhaus ac eithriadol i hyrwyddo hynny y tu hwnt i ddisgwyliadau.<br><br>*Bydd enillwyr y wobr hon yn arddangos cyfraniadau sylweddol mewn un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:*<br><br>• Hyrwyddo neu ymwreiddio Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn eu ffyrdd o weithio mewn ymchwil neu arloesi.<br>• Dangos ymrwymiad parhaus ac eithriadol i hyrwyddo Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn eu gweithle, yn y gymuned ac ati, y tu hwnt i ddisgwyliadau - rhannu'r hyn a gyflawnwyd drwy weithredu'r gwerthoedd hynny.<br>• Cyrhaeddiad ac effaith eu gwaith<br>• Cynnyrch nodedig o'u gwaith<br>• Unrhyw gyflawniadau nodedig eraill e.e./ arloesi, prosiectau mawr, trosglwyddo gwybodaeth, lledaenu eu gwaith ac ati.<br><br>Ar agor i unigolion neu dimau. |
| **Gwobr Aneurin Bevan am** | Mae'r wobr hon yn cydnabod cydweithio ar draws timau neu sefydliadau sydd wedi cael effaith sylweddol ar ymchwil neu arloesi. |

<table>
<tr><td>Ragoriaeth wrth Gydweithio</td><td>Bydd enillwyr y wobr hon yn arddangos cyfraniadau sylweddol mewn un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:<br><br>• Tystiolaeth o gydweithio ar draws y tîm neu'r sefydliad sydd wedi cael effaith sylweddol ar ymchwil neu arloesi<br>• Tystiolaeth o 'werth ychwanegol' yn sgil cydweithio<br>• Tystiolaeth o greu diwylliant colegol a chefnogol.<br>• Cyrhaeddiad ac effaith eu gwaith<br>• Cynnyrch nodedig o'u gwaith<br>• Unrhyw gyflawniadau nodedig eraill e.e./ arloesi, prosiectau mawr, trosglwyddo gwybodaeth, lledaenu eu gwaith ac ati.<br><br>Ar agor i dimau yn unig.  Gall enillwyr fod yn dîm o unrhyw faint (3+)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Medalau Gyrfa Sefydledig</td></tr>
<tr><td>Medal Gwen John ar gyfer y Dyniaethau a'r Celfyddydau</td><td>Mae'r fedal hon yn dathlu cyfraniadau sylweddol i ddisgyblaeth y Dyniaethau a'r Celfyddydau gan unigolion sefydledig sy'n gweithio ym maes ymchwil neu arloesi.<br><br>Bydd enillwyr y fedal hon yn arddangos cyfraniadau sylweddol drwy un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:<br>• Cyfraniad sylweddol i'w disgyblaeth/maes gwaith<br>• Cyrhaeddiad ac effaith eu gwaith y tu hwnt i gwmpas eu maes/disgyblaeth<br>• Cynnyrch nodedig o'u gwaith<br>• Unrhyw gyflawniadau nodedig eraill e.e./ arloesi, prosiectau mawr, trosglwyddo gwybodaeth, lledaenu eu gwaith ac ati.<br><br>Ar agor i unigolion yn unig.</td></tr>
<tr><td>Medal yr Arglwyddes Megan Lloyd George ar gyfer y Gwyddorau Cymdeithasol</td><td>Mae'r fedal hon yn dathlu cyfraniadau sylweddol at ddisgyblaeth y Gwyddorau Cymdeithasol gan unigolion sefydledig sy'n gweithio ym maes ymchwil neu arloesi.<br><br>Bydd enillwyr y fedal hon yn arddangos cyfraniadau sylweddol drwy un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:<br><br>• Cyfraniad sylweddol i'w disgyblaeth/maes gwaith<br>• Cyrhaeddiad ac effaith eu gwaith y tu hwnt i gwmpas eu maes/disgyblaeth<br>• Cynnyrch nodedig o'u gwaith<br>• Unrhyw gyflawniadau nodedig eraill e.e./ arloesi, prosiectau mawr, trosglwyddo gwybodaeth, lledaenu eu gwaith ac ati.<br><br>Ar agor i unigolion yn unig</td></tr>
<tr><td>Medal Alfred Russel Wallace ar gyfer y Biowyddorau a Meddygaeth</td><td>Mae'r fedal hon yn dathlu cyfraniadau sylweddol i ddisgyblaeth y Biowyddorau a Meddygaeth gan unigolion sefydledig sy'n gweithio ym maes ymchwil neu arloesi.<br><br>Bydd enillwyr y fedal hon yn arddangos cyfraniadau sylweddol drwy un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | • Cyfraniad sylweddol i'w disgyblaeth/maes gwaith<br>• Cyrhaeddiad ac effaith eu gwaith y tu hwnt i gwmpas eu maes/disgyblaeth<br>• Cynnyrch nodedig o'u gwaith<br>• Unrhyw gyflawniadau nodedig eraill e.e./ arloesi, prosiectau mawr, trosglwyddo gwybodaeth, lledaenu eu gwaith ac ati.<br><br>Ar agor i unigolion yn unig. |
| **Medal William Menelaus ar gyfer Peirianneg, y Gwyddorau Ffisegol a Mathemateg** | Mae'r fedal hon yn dathlu cyfraniadau sylweddol i ddisgyblaeth Peirianneg, y Gwyddorau Ffisegol a Mathemateg gan unigolion sefydledig sy'n gweithio ym maes ymchwil neu arloesi.<br><br>*Bydd enillwyr y fedal hon yn arddangos cyfraniadau sylweddol drwy un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:*<br><br>• Cyfraniad sylweddol i'w disgyblaeth/maes gwaith<br>• Cyrhaeddiad ac effaith eu gwaith y tu hwnt i gwmpas eu maes/disgyblaeth<br>• Cynnyrch nodedig o'u gwaith<br>• Unrhyw gyflawniadau nodedig eraill e.e./ arloesi, prosiectau mawr, trosglwyddo gwybodaeth, lledaenu eu gwaith ac ati.<br><br>Ar agor i unigolion yn unig. |
| **Medalau Gyrfa Gynnar** | |
| **Medal Dillwyn ar gyfer y Dyniaethau a'r Celfyddydau** | Mae'r fedal hon yn dathlu cyfraniadau sylweddol i ddisgyblaeth y Dyniaethau a'r Celfyddydau gan unigolion sydd ar ddechrau eu gyrfa ac sy'n gweithio ym maes ymchwil neu arloesi.<br><br>*Bydd enillwyr y fedal hon yn arddangos cyfraniadau sylweddol drwy un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:*<br><br>• Cyfraniad sylweddol i'w disgyblaeth/maes gwaith (o gymharu â chyfnod eu gyrfa)<br>• Cyrhaeddiad ac effaith eu gwaith y tu hwnt i gwmpas eu maes/disgyblaeth<br>• Cynnyrch nodedig o'u gwaith<br>• Unrhyw gyflawniadau nodedig eraill e.e./ arloesi, prosiectau mawr, trosglwyddo gwybodaeth, lledaenu eu gwaith ac ati.<br><br>Ar agor i unigolion yn unig. |
| **Medal Dillwyn ar gyfer y Gwyddorau Cymdeithasol** | Mae'r fedal hon yn dathlu cyfraniadau sylweddol i ddisgyblaeth y Gwyddorau Cymdeithasol gan unigolion sydd ar ddechrau eu gyrfa ac sy'n gweithio ym maes ymchwil neu arloesi.<br><br>*Bydd enillwyr y fedal hon yn arddangos cyfraniadau sylweddol drwy un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:*<br><br>• Cyfraniad sylweddol i'w disgyblaeth/maes gwaith (o gymharu â chyfnod eu gyrfa)<br>• Cyrhaeddiad ac effaith eu gwaith y tu hwnt i gwmpas eu maes/disgyblaeth |

| | |
|---|---|
| | • Cynnyrch nodedig o'u gwaith<br>• Unrhyw gyflawniadau nodedig eraill e.e./ arloesi, prosiectau mawr, trosglwyddo gwybodaeth, lledaenu eu gwaith ac ati.<br><br>Ar agor i unigolion yn unig. |
| **Medal Dillwyn ar gyfer y Biowyddorau a Meddygaeth** | Mae'r fedal hon yn dathlu cyfraniadau sylweddol i ddisgyblaeth y Biowyddorau a Meddygaeth gan unigolion sydd ar ddechrau eu gyrfa ac sy'n gweithio ym maes ymchwil neu arloesi.<br><br>*Bydd enillwyr y fedal hon yn arddangos cyfraniadau sylweddol drwy un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:*<br><br>• Cyfraniad sylweddol i'w disgyblaeth/maes gwaith (o gymharu â chyfnod eu gyrfa)<br>• Cyrhaeddiad ac effaith eu gwaith y tu hwnt i gwmpas eu maes/disgyblaeth<br>• Cynnyrch nodedig o'u gwaith<br>• Unrhyw gyflawniadau nodedig eraill e.e./ arloesi, prosiectau mawr, trosglwyddo gwybodaeth, lledaenu eu gwaith ac ati.<br><br>Ar agor i unigolion yn unig. |
| **Medal Dillwyn ar gyfer Peirianneg, y Gwyddorau Ffisegol a Mathemateg** | Mae'r fedal hon yn dathlu cyfraniadau sylweddol i ddisgyblaeth Peirianneg, y Gwyddorau Ffisegol a Mathemateg gan unigolion sydd ar ddechrau eu gyrfa ac sy'n gweithio ym maes ymchwil neu arloesi.<br><br>*Bydd enillwyr y fedal hon yn arddangos cyfraniadau sylweddol drwy un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:*<br><br>• Cyfraniad sylweddol i'w disgyblaeth/maes gwaith (o gymharu â chyfnod eu gyrfa)<br>• Cyrhaeddiad ac effaith eu gwaith y tu hwnt i gwmpas eu maes/disgyblaeth<br>• Cynnyrch nodedig o'u gwaith<br>• Unrhyw gyflawniadau nodedig eraill e.e./ arloesi, prosiectau mawr, trosglwyddo gwybodaeth, lledaenu eu gwaith ac ati.<br><br>Ar agor i unigolion yn unig |

## 3. Y Broses Enwebu

a) Rhaid i enwebwyr lenwi a chyflwyno'r ffurflen enwebu ynghyd â'r dogfennau ategol gofynnol erbyn y dyddiad cau a hysbysebir. Ceir canllawiau ar sut i lunio cais cryf yn y ddogfen 'Canllawiau i Enwebwyr' gallwch weld ar ein gwefan.

b) Yn ogystal â hyn, mae angen geirda. Cyfrifoldeb yr enwebwr yw gofyn am eirda a sicrhau bod y canolwr yn ei gyflwyno erbyn y dyddiad cau. Rhaid i'r canolwr allu rhoi asesiad gwrthrychol o'r ymgeisydd neu'r tîm. Ni roddir ystyriaeth i enwebiadau heb eirda.

c) Mae'r Enwebydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr Ymgeisydd yn cydsynio i gael ei enwebu – gellir cadarnhau hyn drwy arolwg byr ar lein (gallwch weld ar ein gwefan) a fydd yn cynnwys cwestiwn ar Effaith ar Yrfa (gweler isod).

ch) Ar gyfer *Gwobrau Effaith a Medalau Gyrfa Sefydledig*, mae'n ofynnol i'r canolwr fod yn annibynnol ar sefydliad yr ymgeisydd neu'r tîm. Ni chaniateir i Oruchwylwyr Doethuriaeth na chyd-awduron roi geirdaon.

d) Ar gyfer *Medalau Gyrfa Gynnar (Dillwyn)*, mae'n ofynnol i'r canolwr fod yn rhywun sy'n gallu rhoi sylwadau gwrthrychol ar waith yr ymgeisydd ac nad yw'n gweithio'n uniongyrchol â'r ymgeisydd o ddydd i ddydd.

dd) Mae gan bob ymgeisydd neu dîm yr opsiwn i ateb cwestiwn am effaith gyrfa fel rhan o'r ffurflen Caniatâd. Mae'r ffurflen hon ar gael i ymgeisydd (neu Dîm) ei chwblhau a'i chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Medalau a Gwobrau os yw'n dymuno tynnu sylw at unrhyw ffactorau sydd wedi dylanwadu neu amharu ar ei yrfa, ac yr hoffai i'r Pwyllgor Craffu Medalau a Gwobrau roi cyfrif amdanynt wrth ystyried yr enwebiad. Mae rhagolwg o'r cwestiwn hwn ar gael ar ein gwefan.

## 4. Pwyllgor Medalau a Gwobrau'r Gymdeithas

a) Mae 3 Phwyllgor Medalau a Gwobrau o fewn y Gymdeithas yn ystyried yr enwebiadau ddaw i law. Maent yn cynnwys ystod eang o Gymrodyr i gynrychioli ehangder y disgyblaethau a'r sefydliadau a hefyd yn ceisio sicrhau cydbwysedd ar draws rhywedd, hil ac unrhyw nodweddion eraill a dybir yn berthnasol.

   i. Bydd y pwyllgor Gwobrau Effaith yn ystyried 4 gwobr - 2 bob blwyddyn. Bydd yn cynnwys 4 Cymrawd o'r Gymdeithas a hefyd yn ceisio cael 1 Cymrawd Anrhydeddus o'r Gymdeithas i ymuno. Bydd gan bob un o’r rhain hawliau pleidleisio cyfartal.
   ii. Bydd y pwyllgor Medalau Gyrfa Sefydledig yn ystyried 4 medal – 2 bob blwyddyn. Bydd yn cynnwys 4 Cymrawd o'r Gymdeithas a 2 aelod o'r Grŵp Cynghori ar Ddatblygu Ymchwilwyr a gaiff eu hethol i'r rôl. Bydd gan bob un o’r rhain hawliau pleidleisio cyfartal.
   iii. Bydd y pwyllgor Medalau Gyrfa Gynnar yn ystyried y 4 medal Dillwyn – 2 bob blwyddyn. Bydd yn cynnwys 4 Cymrawd o'r Gymdeithas a 2 aelod o'r Grŵp Cynghori ar Ddatblygu Ymchwilwyr a gaiff eu hethol i'r rôl. Bydd gan bob un o’r rhain hawliau pleidleisio cyfartal.

b) Dewisir aelodau pob pwyllgor craffu medalau i gynrychioli’r ystod o ddisgyblaethau a gynrychiolir gan ein medalau. Rhoddir hefyd ystyriaeth i sicrhau bod gennym gydbwysedd o ran rhywedd ac amrywiaeth ddemograffeg gref ar draws pob unigolyn ym mhob pwyllgor.

c) Nid yw cymrodyr sydd ar Gyngor CDdC neu’r Pwyllgor Materion Cyffredinol yn gymwys i sefyll ar Pwyllgor Medalau a Gwobrau'r Gymdeithas.

ch) Ni chaiff aelodau’r Pwyllgor Medalau a Gwobrau enwebu rhywun am fedal neu wobr yn y categorïau y mae eu pwyllgor yn eu hystyried.

d) Bydd Cymrodyr ar y Pwyllgor Medalau a Gwobrau CDdC yn gwasanaethu am gyfnod o 3 blynedd gyda seibiant o 2 flynedd rhwng pob cyfnod yn ofynnol.

dd) Bydd aelodau’r Grŵp Cynghori ar gyfer Datblygu Ymchwilwyr ar Bwyllgor Medalau a Gwobrau CDdC yn gwasanaethu am gyfnod o 2 blynedd, neu am weddill eu tymor yn y Grŵp Cynghori.

e) Gwahoddir Cymrodyr er Anrhydedd i ymuno â’r Pwyllgor Effaith gan y Pwyllgor Materion Cyffredinol yn flynyddol, gan eistedd ar y pwyllgor am flwyddyn.

f) Bydd aelodau Pwyllgor Medalau a Gwobrau'r Gymdeithas yn gwasanaethu am gyfnod o 3 blynedd gyda seibiant o 2 flynedd yn ofynnol rhwng pob cyfnod yn y swydd.

ff) Bydd un Cymrawd ychwanegol sy'n dal rôl 'Aelod Annibynnol' yn eistedd ar bob Pwyllgor Craffu Medalau a Gwobrau i gynnig elfen ychwanegol o graffu a chefnogaeth, yn enwedig o ran ystyriaethau Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Bydd uchafswm o dri o Aelodau Annibynnol etholedig Proses Craffu'r Gymrodoriaeth yn cael gwahoddiad i ymuno â'r Pwyllgorau Craffu Medalau a Gwobrau i'r diben hwn. Ni fydd ganddynt unrhyw hawliau pleidleisio.

g) Nid yw Cymrodyr sy'n eistedd ar Gyngor na Phwyllgor Dibenion Cyffredinol y Gymdeithas yn gymwys i eistedd ar Bwyllgor Medalau a Gwobrau'r Gymdeithas.

ng) Bydd y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol yn dewis Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn flynyddol o blith y 4 Cymrawd a ddewiswyd ar bob pwyllgor, a fydd yn goruchwylio'r broses Graffu ar gyfer y medalau/gwobrau a ddyrannwyd iddynt.

h) Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu:

*Pwyllgor Craffu Effaith:*

Y cworwm yn y Pwyllgor Craffu Effaith yw pedwar (4). Gall hyn fod yn unrhyw gyfuniad o Gymrodyr a Chymrodyr er Anrhydedd.

Os daw unrhyw aelod o'r Pwyllgor Craffu yn ymwybodol na all fod yn bresennol, dylai gysylltu â staff CDdC i'w hysbysu cyn gynted â phosibl cyn y cyfarfod.

Yna, gellir dilyn y prosesau canlynol:

1. Os bydd digon o amser i recriwtio aelod newydd, gofynnir i'r Cadeirydd (neu'r Is-gadeirydd os oes angen) benodi unigolyn perthnasol. Gall y penodiad hwn ddod o'r Datganiadau o Ddiddordeb a gafwyd yn y lle cyntaf ac o'r Gymrodoriaeth ehangach pan fo angen.

Os nad oes amser i recriwtio aelod newydd:

2. Gall y cyfarfod fwrw ymlaen ac ystyrir pob penderfyniad yn ddilys os oes cyfanswm o 3 (Cymrodyr a/neu Gymrodyr er Anrhydedd) yn bresennol ac maent wedi cael cyfraniad ysgrifenedig gan y Cymrawd nad yw'n gallu bod yn bresennol. Dylai ei gyfraniad gynnwys ei sgoriau ac unrhyw gyfraniad arall i'w gyflwyno a'i rannu gyda'r pwyllgor cyn gynted ag y bo modd cyn y cyfarfod.

   Os nad yw'n bosibl cael cyfraniad gan y Cymrawd nad yw'n gallu bod yn bresennol:

3. Gall y cyfarfod gael ei aildrefnu i ddyddiad arall i sicrhau y gellir cyflawni'r cworwm - gan gynnwys recriwtio aelodau newydd os oes angen.

*Pwyllgor Craffu Gyrfa Gynnar a Phwyllgor Craffu Gyrfa Sefydledig:*

Y cworwm ym mhob un o'r Pwyllgorau Craffu hyn yw pedwar (4). Gall hyn fod yn unrhyw gyfuniad o Gymrodyr ac aelodau o'r Grŵp Cynghori ar Ddatblygu Ymchwilwyr.

Os bydd unrhyw aelod o'r Pwyllgor Craffu yn sylweddoli na all fod yn bresennol, dylai gysylltu â staff CDdC i'w hysbysu cyn gynted â phosibl.

Yna, gellir dilyn y prosesau canlynol:

1. Os bydd digon o amser i recriwtio aelod newydd, gofynnir i'r Cadeirydd (neu'r Is-gadeirydd os oes angen) benodi unigolyn perthnasol. Gall y penodiad hwn ddod o'r Datganiadau o Ddiddordeb a gafwyd yn y lle cyntaf ac o'r Gymrodoriaeth ehangach pan fo angen.

Os nad oes amser i recriwtio aelod newydd:

2. Gall y cyfarfod fwrw ymlaen ac ystyrir pob penderfyniad yn ddilys os oes cyfanswm o 4 (Cymrodyr a/neu aelodau o'r Grŵp Cynghori ar gyfer Datblygu Ymchwilwyr) yn bresennol ac maent wedi cael cyfraniad ysgrifenedig gan un unigolyn nad yw'n gallu bod yn bresennol. Dylai ei gyfraniad gynnwys ei sgoriau ac unrhyw gyfraniad arall i'w gyflwyno a'i rannu gyda'r pwyllgor cyn gynted ag y bo modd cyn y cyfarfod

Os nad yw'n bosibl cael cyfraniad gan yr unigolyn nad yw'n gallu bod yn bresennol:

3. Gall y cyfarfod gael ei aildrefnu i ddyddiad arall i sicrhau y gellir cyflawni'r cworwm - gan gynnwys recriwtio aelodau newydd os oes angen.

## 5. Dewis a dyfarnu

a) Bydd y Pwyllgor yn cynnal cyfarfod ar-lein i drafod yr holl enwebiadau a gafwyd ac i wneud eu penderfyniadau.
b) Dyfernir pob medal/gwobr i'r unigolyn (neu'r tîm) a ystyrir yn fwyaf teilwng gan Bwyllgor Medalau a Gwobrau'r Gymdeithas
c) Dim ond yr wybodaeth a ddarperir yn y dogfennau a gyflwynwyd y bydd Pwyllgor Medalau a Gwobrau'r Gymdeithas yn ei defnyddio i ddod i benderfyniad. I wneud hyn, bydd yn asesu'r enwebiad yn erbyn y dystiolaeth a ddarparwyd i ddangos sut maent yn bodloni neu'n rhagori ar y meini prawf. Dylai eich ffurflen enwebu felly gynnwys yr wybodaeth ganlynol yn dystiolaeth o'u haddasrwydd:
    - Trosolwg eang o waith yr ymgeisydd neu'r tîm
    - Statws ymgeiswyr, neu eu cyfraniad at eu maes
    - Arddangosiad o'u rhagoriaeth o ran enw da
    - Arddangosiad o gynnyrch nodedig o waith yr ymgeisydd neu'r tîm
    - Dealltwriaeth o gyrhaeddiad ac effaith gwaith yr ymgeisydd neu'r tîm
    - Unrhyw agweddau ychwanegol fel arloesedd, effaith ar gymdeithas, prosiectau mawr, trosglwyddo gwybodaeth a lledaenu eu gwaith.

ch) Er mwyn sicrhau y caiff enwebiadau eu hystyried mewn modd cyfartal, ni fydd Pwyllgor Medalau a Gwobrau'r Gymdeithas yn dilyn dolenni gwe i gael gwybodaeth bellach o wefannau allanol, felly peidiwch â chynnwys y dolenni hynny yn eich enwebiad.

d) Bydd pwyllgorau craffu yn cymryd camau gweithredol i osgoi a datgelu rhagfarn, ac i sicrhau nad yw'r ffactorau canlynol yn effeithio ar y broses ddyfarnu:
    - Cyflymder cynnydd gyrfa
    - Gwobrau a medalau blaenorol

- Enw da sefydliadol
- Sillafu a gramadeg yn y dogfennau enwebu
- Rhagfarn yn gysylltiedig ag unrhyw nodwedd warchodedig

dd) Mae gan Bwyllgor Medalau a Gwobrau'r Gymdeithas hawl i beidio â dewis enillydd os ydynt o'r farn na fodlonwyd y meini prawf.

e) Bydd unrhyw bryderon neu faterion, gan gynnwys pwyllgorau nad ydynt yn gallu cytuno ar benderfyniad terfynol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Materion Cyffredinol.

f) Bydd y Gymdeithas yn cysylltu'n uniongyrchol â'r enillwyr i'w hysbysu am y canlyniad – gan anfon copi o'r hysbysiad at eu henwebydd.

ff) Bydd enwebwyr ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael gwybod gan y Gymdeithas beth fu penderfyniadau'r Pwyllgor Medalau a Gwobrau ar ôl cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu.

g) Ni fydd pwyllgorau'n rhoi adborth am y rheswm dros eu penderfyniadau (gweler yr eithriad isod).

ng) *MEDALAU DILLWYN YN UNIG* – Rhoddir adborth byr mewn ysgrifen i'r enwebydd a all wedyn ei rannu â'r ymgeisydd os yw'n teimlo y byddai'n ei gefnogi yn y dyfodol.

h) Mae gan y Gymdeithas egwyddorion cryf o ran Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant a bydd yn ofynnol i bob pwyllgor gadw at ein gwerthoedd ecwiti wrth wneud eu penderfyniadau.

**6. Derbynwyr Medalau a Gwobrau**

a) Bydd enillwyr (a'u henwebwyr) yn cael gwahoddiad i seremoni wobrwyo ar ôl cael gwybod am ganlyniad y wobr - caiff dyddiad a lleoliad y seremoni eu cadarnhau.

b) Pan fydd tîm yn derbyn gwobr, bydd y Gymdeithas yn rhoi gwybod i'r tîm faint o'u haelodau fydd yn cael gwahoddiad i'r seremoni.

c) Yn y seremoni wobrwyo, bydd y wobr berthnasol yn cael ei chyflwyno i'r enillwyr (medal neu wobr fel bo'n berthnasol), ynghyd â thystysgrif.

ch) Bydd enillwyr yn cael gwahoddiad i'r llwyfan yn y seremoni, a gofynnir iddynt roi araith fer ar ôl derbyn y fedal, gydag arweiniad gan dîm y Gymdeithas.

d) *MEDALAU DILLWYN YN UNIG* -Ceir gwobr ariannol i gyd-fynd â phob medal

dd) Efallai y gofynnir i enillwyr gyfrannu at stori neu ddarn newyddion am eu gwaith

e) Efallai y bydd enillwyr yn cael gwahoddiad i gyfrannu at waith Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn y dyfodol - gan gynnwys traddodi darlith, rhoi araith neu greu blog (ymhlith pethau eraill).